


# Fframwaith Gwirfoddoli yn Gymraeg

## Canllaw i fudiadau yn y trydydd sector





Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales

MENTRAU IAITH

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan Mentrau Iaith Cymru gyda chefnogaeth IAITH: y ganolfan cynllunio iaith.

MENTRAU IAITH

y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning

Cafodd y gwaith hwn ei ariannu drwy Grantiau Strategol Gwirfoddoli Cymru, rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a'i weinyddu gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddoli Cymru

Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys


Cyflwyniad .......... 4

Yr ymchwil .......... 5

Prif ganfyddiadau'r ymchwil .......... 6

Pam ystyried y Gymraeg? .......... 9

Siaradwyr Cymraeg a Gwirfoddoli .......... 10

Manteision i fudiadau gwirfoddol .......... 12

Manteision i fudiadau gwirfoddol Cymraeg eu hiaith .......... 15

Manteision i wirfoddolwyr .......... 16

Llwybr Llwyddiant .......... 17

Adnabod angen .......... 18

Recriwtio .......... 20

Hyfforddi .......... 25

Cynnal a chefnogi .......... 27

Gwobrwyo .......... 29

Rhwydwaith cefnogi .......... 30

Diolchiadau .......... 39

# Cyflwyniad



Mae'r fframwaith yma yn rhan o gynllun ehangach gan Mentrau Iaith Cymru i greu sefyllfa lle mae:

- dealltwriaeth lawn gan fudiadau gwirfoddol o sut i fynd ati i ddenu gwirfoddolwyr sydd eisiau defnyddio'r Gymraeg, a
- chynnydd yn y nifer o bobl sy'n gwirfoddoli ac yn gwneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r fframwaith wedi ei seilio ar waith ymchwil a gasglwyd drwy gynnal cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda mudiadau gwirfoddol. Drwy'r gwaith hynny rydym wedi casglu enghreifftiau o arfer da a syniadau rhagweithiol am sut i fynd ati i recriwtio gwirfoddolwyr sy'n medru siarad Cymraeg. Rydym hefyd wedi edrych ar y rhwystrau sy'n wynebu mudiadau gwirfoddol ar hyn o bryd yn y cyd-destun hwn.

Mae'r fframwaith yma yn cynnig syniadau ymarferol ar sut i fynd ati i ddatrys yr heriau hynny. Gobeithiwn yn fawr y gwnewch chi fwynhau ac y bydd eich mudiadau yn medru elwa o'r syniadau yma.

Rydym wedi cynnwys canllawiau a dogfennau defnyddiol sydd eisoes yn bodoli ar y pwnc yma yn y ddogfen hon. Mae atodiadau yn ymddangos drwyddi draw yn y pecyn i'ch cefnogi ar eich taith recriwtio.





# Yr ymchwil

Aethpwyd ati i gynnal trafodaethau mewn tair ardal:

- Sir Benfro
- Rhondda Cynon Taf
- Conwy

Dewiswyd yr ardaloedd yma ar sail eu hamrywiaethau a gwahaniaethau o ran niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg, ac o ran eu pellter daearyddol oddi wrth ei gilydd.

Cynhaliwyd grwpiau ffocws yn y tair ardal mewn cydweithrediad a'r cyngor gwirfoddol lleol (CVC) a'r Fenter Iaith leol. Roedd y drafodaeth yn edrych yn benodol ar:

- arferion cyfredol o ran recriwtio yn gyffredinol,
- y rhwystrau i recriwtio gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg, ac
- arferion da o safbwynt recriwtio gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg.

Bu 30 o fudiadau gwirfoddol yn rhan o'r broses hon. Ceir rhestr lawn ohonynt ar ddiwedd y pecyn hwn.

Yn ogystal â'r trafodaethau uchod, cynhaliwyd sgyrsiau 1:1 gydag endidau Cymraeg sy'n gweithio ar lefel genedlaethol. Yn benodol roedd hyn yn cynnwys:

- Mudiad Meithrin
- Urdd Gobaith Cymru
- Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- Mentrau Iaith Cymru
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru

# Prif ganfyddiadau'r ymchwil

## Rhwydweithiau lleol

Mae yna rwydweithiau cadarn a chefnogol yn bodoli yn y tair ardal. Gwelwyd rhwydweithiau gwirfoddol cadarn o dan arweiniad y Cynghorau Gwirfoddol Lleol a rhwydweithiau o sefydliadau Cymraeg yn cydweithio'n hwylus gyda'r Mentrau Iaith. Cafwyd esiamplau o gydweithio a hynny yn bennaf ar ddigwyddiadau 'tasg a chwblhau' e.e. dod o hyd i wirfoddolwyr ar gyfer gwyliau lleol e.e. Parti Ponty a'r Eisteddfod Genedlaethol. Doedd yna ddim llawer o dystiolaeth o gydweithio rhagweithiol o ran recriwtio gwirfoddolwyr ar brofiadau gwirfoddoli tymor hir. Er bod y Cynghorau Gwirfoddol Lleol a'r Mentrau yn adnabod ei gilydd ac yn rhannu gwybodaeth, roedd y partneriaid yn teimlo bod yna gyfle i ddatblygu'r perthnasau er mwyn medru cyrraedd cymunedau o siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.

## Hysbysebu cyfleoedd

Cyfeiriodd sawl mudiad at y ffaith eu bod yn nodi bod eu cyfleoedd yn rhai cyfrwng Cymraeg drwy ddefnyddio'r 'bathodyn' sydd ar gael ar blatfform Gwirfoddoli Cymru. Roeddent hefyd yn cydnabod nad oeddent bob amser yn medru gosod y testun yn ddwyieithog oherwydd pwysau amser neu ddiffyg sgiliau cyfieithu yn y tîm.

Er bod nifer yn chwilio am siaradwyr Cymraeg, nid oedd y mudiadau yn nodi pa sgiliau ieithyddol yr oeddent yn chwilio amdanynt ac nid oedd unrhyw fanylu pellach ar ofynion iaith Gymraeg y cyfleoedd.

Roedd y rhan fwyaf o'r mudiadau trydydd sector (y tu hwnt i'r endidau cyfrwng Cymraeg) yn defnyddio platfformau swyddogol i hyrwyddo cyfleoedd e.e. Gwirfoddoli Cymru a'r fersiynau lleol. Gofynnodd nifer o'r mudiadau am gefnogaeth i gael mynediad penodol at siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ar lefel leol.

## Sut mae mudiadau yn cael eu gweld

Trafodwyd sut mae sefydliadau mawr cenedlaethol/DU yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu gyda chymunedau lleol.

Cafwyd enghraifft hefyd o sut mae rhai mudiadau wedi gorfod torri'u cwys eu hunain er mwyn medru newid eu delwedd ar lefel leol.

Trafodwyd hefyd sut mae delwedd Gymreig yn medru denu siaradwyr Cymraeg a dysgwyr drwy ddarparu lleoliad lle maent yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio eu sgiliau.

Trafodwyd yr angen i sefydliadau anfon 'signalau/arwyddion' croesawgar a chynhwysol i fedru denu gwirfoddolwyr. Does dim angen i hyn olygu newidiadau mawr ond pethau bach fel defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, y math o Gymraeg a ddefnyddir i gyfathrebu, cyfieithiadau safonol a chywir, negeseuon wedi eu llunio yn benodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

## Hyfforddiant

Doedd dim llawer o enghreifftiau o hyfforddiant wedi ei deilwra ar gyfer siaradwyr Cymraeg nac ar gyfer gwirfoddolwyr oedd eisiau datblygu ei sgiliau cyfrwng Cymraeg. Cafwyd un enghraifft oedd yn nodi pa mor bwysig oedd yr hyfforddiant nid yn unig er mwyn bod yn apelgar i wirfoddolwyr ond o ran ansawdd y gwasanaeth hefyd.

## Gwirfoddoli yn ffurfiol

Fe ddaeth i'r amlwg fod siaradwyr Cymraeg yn parhau i weld y term 'gwirfoddoli' yn or-ffurfiol i'r math o brofiadau y maent yn ymwneud â nhw o fewn eu cymunedau. Trafodwyd yr angen i fudiadau sy'n dymuno recriwtio siaradwyr Cymraeg ddod o hyd i ffordd o weithredu o fewn y cymunedau hynny mewn ffordd sy'n apelgar i siaradwyr Cymraeg.




# Pam ystyried y Gymraeg?

Mae Cymru'n wlad ddwyieithog ac mae ynddi uchelgais gref i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

> Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl. Ein huchelgais ni fel Llywodraeth Cymru yw gweld miliwn o bobl yn gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050. Does dim dwywaith fod hon yn uchelgais heriol, ond rydym yn credu ei bod yn her werth chweil a bod angen i ni osod uchelgais o'r fath os ydym am sicrhau hyfywedd yr iaith ar gyfer cenedlaethau i ddod.
>
> Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

Mae gan y trydydd sector ran amlwg i'w chwarae yn yr uchelgais hon yn enwedig wrth i ni drafod cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, mewn gwasanaethau ac wrth gwrs y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Gyda bron i 44,000 o fudiadau gwirfoddol yn gweithio yng Nghymru a 124,800 yn gweithio yn y trydydd sector does dim amheuaeth bod ganddi ddylanwad sylweddol. (Porth Data'r Trydydd Sector - Y sector gwirfoddol yng Nghymru - CGGC (wcva.cymru))







# Siaradwyr Cymraeg a Gwirfoddoli

Dangosodd y gwaith ymchwil ar gyfer y gwaith yma bod mudiadau gwirfoddol yn gweld recriwtio siaradwyr Cymraeg i wirfoddoli yn heriol. Y brif neges gan fudiadau gwirfoddol yw nad ydynt yn cael llawer o ymateb i hysbysebion am wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg. Wrth drafod eu dulliau recriwtio, fe ddaeth i'r amlwg nad oeddent yn teimlo bod y ceisiadau yma am siaradwyr Cymraeg yn cyrraedd y gynulleidfa darged.

Mae'r trafodaethau a gafwyd yn adlewyrchu'r hyn a gyflwynwyd mewn gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2014 sy'n nodi:

> Un peth diddorol a ddaeth i'r amlwg oedd bod mwy o wirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith wedi mynd ati i wirfoddoli drwy ddilyn llwybrau anffurfiol – traddodiadau teuluol o wirfoddoli, neu efo'r capel neu fudiad, yn hytrach na thrwy ddefnyddio sefydliadau hybu gwirfoddoli, neu drwy gynnig gwirfoddoli efo elusennau mawrion Prydeinig.
>
> Cynog Prys Ysgol Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor, a Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2014

> Un peth diddorol yw nad oedd y bobl o'r gymuned oedd yn rhan o'r trefniadau yn gweld eu hunain fel gwirfoddolwyr, roeddent yn falch cael bod yn rhan o ddigwyddiad newydd, cyffrous a heb weld eu hunain yn cyflawni gwaith gwirfoddol.
>
> Un o drefnwyr, Fel 'na Mai

Mae gwaith Gwirfoddoli yn Gymraeg 2022 yn mynd i'r afael felly â chreu pontydd rhwng siaradwyr Cymraeg a chyfleoedd gwirfoddoli gan annog:

- mudiadau gwirfoddol i gynllunio sut maent yn ymgysylltu gyda gwirfoddolwyr
- siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio dulliau sy'n newydd iddynt er mwyn darganfod mwy o gyfleoedd gwirfoddoli

Mae'r pecyn hwn yn mynd i'r afael â'r materion yma gan gydnabod bod siaradwyr Cymraeg yn dueddol o ddefnyddio rhwydweithiau uniongyrchol Gymraeg yn hytrach na chamu i fyd y CGGC, Canolfannau Gwirfoddoli Lleol a'r rhwydweithiau swyddogol sy'n bodoli o fewn y trydydd sector yng Nghymru.





# Manteision i fudiadau gwirfoddol

- Cynyddu eich gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog
- Dangos eich bod yn ymwybodol o anghenion iaith posib eich cynulleidfa
- Eich galluogi i gefnogi neu wasanaethu siaradwyr Cymraeg sydd 'angen' gwasanaeth cyfrwng Cymraeg – y Cynnig Rhagweithiol

Yn syml, ystyr 'Cynnig Rhagweithiol' yw darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Dylai'r Gymraeg fod yr un mor weladwy â'r Saesneg.

- Mae'n golygu newid diwylliant, sy'n tynnu'r cyfrifoldeb oddi ar y defnyddiwr gwasanaeth i ofyn am wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn sylfaenol i'r 'Cynnig Rhagweithiol'. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth wedi'i deilwra'n benodol sy'n galluogi'r unigolyn i fod yn sicr bod ganddo/ganddi reolaeth dros y sefyllfa ac yn deall yn llawn pa wasanaethau sy'n cael eu cynnig.

'Pecyn Gwybodaeth Y Cynnig Rhagweithiol' Gofal Cymdeithasol Cymru.



- Cynyddu eich apêl i gynulleidfa ehangach a chynyddu eich gallu i gystadlu am grantiau.

> Fel dosbarthwr arian cyhoeddus, rydym yn rhoi rhai disgwyliadau ar y prosiectau a ariannwn. Mae'r disgwyliadau hyn yn cynnwys:
> • Y gallu i weithredu yn ddwyieithog a bod yn agored a hygyrch i siaradwyr Cymraeg a di Gymraeg.
> • Peidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg (yn cynnwys sicrhau bod deunyddiau, gwybodaeth a gwasanaethau ar gael yn Gymraeg)
> • Cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg (yn cynnwys darparu gwasanaethau yn y Gymraeg a chreu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithgareddau sy'n cael eu hariannu)

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

- Bod yn rhan o symudiad cenedlaethol i gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru o greu 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050' a chefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i saith nod llesiant.

"Mae gennym uchelgeisiau mawr o ran diogelu ein hamgylchedd a chenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru ac rydym yn arwain y ffordd gyda'n Deddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol"

— Sophie Howe / Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru



- Agor y drws i ddiwylliant Cymraeg bywiog a chynhwysol

- Arddangos eich dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o iaith, hanes a diwylliant Cymru gan wneud eich mudiad yn apelgar i gynulleidfaoedd ar draws Cymru a thu hwnt.







# Manteision i fudiadau gwirfoddol Cymraeg eu hiaith

- Cefnogaeth ymarferol i'ch gwaith bob dydd
- Cynyddu eich capasiti i weithredu
- Codi ymwybyddiaeth o waith eich mudiadau ymhlith y cyhoedd
- Sicrhau perchnogaeth gymunedol o waith eich mudiad
- Sicrhau cefnogaeth cymunedau ac unigolion i waith eich mudiad yn lleol, rhanbarthol ac yn genedlaethol





# Manteision i wirfoddolwyr

- Cyfle i wirfoddoli yn eu dewis iaith gan gynyddu'r apel i wirfoddoli
- Cyfle i siaradwyr newydd ymarfer eu sgiliau iaith
- Cael cyfrannu at waith mudiad sy'n rhoi gwerth ar sgiliau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg
- Ennill profiadau a sgiliau newydd
- Cynyddu hunanwerth a phwrpas
- Ennill cymwysterau neu wobr am eich gwaith





# Llwybr Llwyddiant

Mae sawl peth y gallwch chi ei wneud i lwyddo wrth recriwtio a chefnogi eich gwirfoddolwyr. I amlygu'r camau posib rydym wedi creu Llwybr Llwyddiant sy'n nodi gwahanol elfennau i'w hystyried.

Mae 5 cam ar y llwybr:

1. Adnabod angen
2. Recriwtio
3. Hyfforddi
4. Cynnal a chefnogi
5. Gwobrwyo

# 1 Adnabod angen

Yn gyntaf, mae angen edrych ar beth yn union sydd ei angen arnoch. I fudiadau lle nad yw'r Gymraeg yn brif iaith y gwaith, mae hyn yn golygu edrych ar y gweithlu a'r gwirfoddolwyr sydd yn gweithio gyda chi ar hyn o bryd er mwyn deall pa sgiliau sydd ganddynt. Gallwch wneud hyn drwy ddefnyddio 'Holiadur Sgiliau Iaith'. Mae hon yn broses syml ac yn gyfle i'r gweithlu adnabod eu sgiliau a rhannu'r wybodaeth honno gyda chi.

Mae'n bwysig eu bod yn deall pam eich bod yn holi. Nodwch eich bod yn dymuno gwybod lle mae angen cefnogaeth ychwanegol ar eich mudiad i ddarparu gwasanaethau neu i weithio'n ddwyieithog. Eglurwch nad ymarfer gwerthuso yw hwn ond cyfle iddynt gynnig rhywbeth ychwanegol i'w gwaith os ydynt yn meddu ar sgiliau nad oeddech yn ymwybodol ohonynt.

Bydd canlyniadau'r holiadur yn gyfle i chi ganfod bylchau a llunio Strategaeth Wirfoddoli sy'n ystyried sut i fynd ati i chwilio am wirfoddolwyr all gynnig rhywbeth arbennig i'ch mudiad.

Mae hefyd yn gyfle i ddechrau'r sgwrs am y Gymraeg yn eich sefydliad gan wreiddio ymwybyddiaeth iaith ymhlith siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg.





Mae hyn yn golygu edrych yn union ar ble rydych chi'n chwilio am gefnogaeth yn eich mudiad ac yna meddwl pa fath o sgiliau iaith sydd eu hangen ar wirfoddolwyr i gyflawni'r gwaith. Lluniwch restr o'r sgiliau angenrheidiol. Dyma eich proffil gwirfoddolwr.

Mae'r canllawiau isod yn eich arwain drwy'r broses o ddatblygu strategaeth wirfoddoli. Datblygwyd yr adnodd hwn gan Gwirfoddoli Cymru.

Datblygu strategaeth wirfoddoli - Cefnogi Trydydd Sector Cymru (thirdsectorsupport.wales)



# 2 Recriwtio

Wedi i chi adnabod y bylchau gallwch greu disgrifiad o'r hyn sydd ei angen gan wirfoddolwyr. Mae'n holl bwysig eich bod yn nodi yn union yr hyn yr ydych yn chwilio amdano er mwyn annog siaradwyr Cymraeg i achub ar eich cyfle. Gall rhestr o dasgau penodol fod yn ddigon. Mae'r sgiliau sydd gan bobl ddwyieithog yn amrywio yn llwyr a chryfderau gwahanol gan bob unigolyn. Nid pob siaradwr dwyieithog fydd yn dymuno ysgrifennu adroddiad yn Gymraeg na gwneud cyflwyniad o flaen criw o bobl. Bydd rhai yn hapus iawn i wneud hynny, tra bod eraill yn fwy awyddus i ddefnyddio eu hiaith lafar e.e. i gynnig gwasanaeth dros y ffôn gyda'r henoed neu gefnogi plant mewn gweithgaredd hamdden. Mae nodi eich bod yn chwilio am siaradwr Cymraeg yn wych, ond mae angen mynd gam ymhellach hefyd – byddwch yn glir am yr hyn yr ydych yn chwilio gan deilwra bob hysbyseb i ysbrydoli gwirfoddolwyr.

Cofiwch hefyd bod angen i'r hysbyseb fod yn ddwyieithog. Bydd gweld hysbyseb yn Gymraeg yn dangos i'r gwirfoddolwr eich bod yn gynhwysol ac yn ystyried anghenion ieithyddol o'r cychwyn. Defnyddiwch Gymraeg clir. Bydd ysgrifennu mewn iaith sy'n ddealladwy i bawb yn gwneud eich mudiad yn fwy apelgar i siaradwyr llai profiadol. Dyma fodelu eich gwerthoedd chi fel mudiad tuag at y Gymraeg.

**Nid yw rhaglenni cyfieithu ar-lein yn ateb i'r her yma. Nid oes modd dibynnu ar gywirdeb y cyfieithiadau ac mi allai hynny arwain at greu darlun negyddol o'ch gwasanaethau dwyieithog. Gofynnwch am gyngor wrth fudiadau Cymraeg yn eich ardal. Mae cysylltiadau pellach i'ch cefnogi gyda chyfieithu, gan gynnwys gwasanaeth Helo Blod sydd am ddim, ar ddiwedd y pecyn hwn.**


Ystyriwch lle mae'r hysbyseb yn ymddangos. Rydym yn annog pawb i osod eu hysbysebion am gyfleoedd gwirfoddoli ar blatfform Gwirfoddoli Cymru. Dyma'r bathodynau sydd ar y system i'ch helpu:




Defnyddiwch y bathodyn yma i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli cyfrwng Cymraeg.




Defnyddiwch y bathodyn yma i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli lle bydd y gwirfoddolwr yn defnyddio'r Gymraeg weithiau.




Defnyddiwch y bathodyn yma i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer unigolion sy'n dysgu Cymraeg.

O fewn y disgrifiad o'ch cyfle, mae'r opsiwn i chi wedyn ehangu ar y disgrifiad o faint o Gymraeg gellir ei ddefnyddio drwy ddisgrifio a manylu ar dasgau penodol.

Drwy gael un lleoliad ble mae pawb yn hysbysebu cyfleoedd gwirfoddoli, mae modd creu ymgyrchoedd marchnata sy'n helpu pob endid i ddenu gwirfoddolwyr, yn ogystal â'i gwneud hi'n haws i ddarpar wirfoddolwyr ddod o hyd i gyfleoedd addas. Yn ogystal mae angen i chi dargedu siaradwyr Cymraeg yn benodol drwy gael mynediad at y rhwydweithiau cyfrwng Cymraeg yn lleol.



# Arfer da – Gŵyl Fel 'na Mai

Prosiect ar y cyd rhwng y Fenter ac aelodau o Gôr Clwb Rygbi Crymych oedd cychwyn Gŵyl Fel 'Na Mai. Mae gwirfoddolwyr o'r Fenter ac aelodau'r côr wedi bod yn greiddiol i sicrhau llwyddiant yr Ŵyl. Wrth gydweithio fel hyn, tynnwyd ar drawstoriad eang o wahanol sgiliau gan y gwirfoddolwyr o'r ochr ariannol i arbennigedd ar y safle, a stiwardio a pharcio. Roedd gan y gwirfoddolwyr gymaint o gysylltiadau hefyd, pobl na fyddai wedi bod yn rhan o'r trefnu a'r cynnal heblaw am y cyswllt hynny ac wrth gwrs mae hynny wedi cryfhau'r nifer o wirfoddolwyr y gall y Fenter fynd ar eu gofyn eto yn y dyfodol. Wrth reswm rhaid i ni gael gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg ond hefyd bu rhai dysgwyr yn cynorthwyo ac yn cael cyfle wedyn i siarad Cymraeg mewn awyrgylch hollol anffurfiol a chwrdd â phobl newydd. Braf iawn yw cael cwmni pobl ifanc i wirfoddoli, rhai wedi chwarae rhan weithredol ar y pwyllgor trefnu ac eraill, megis aelodau tîm iau y Clwb Rygbi yn cydweithio â'r Fenter a'r Cylch Meithrin lleol i gynnal gweithgareddau i'r plant. Drwy hyn roeddent yn medru cael cyfle i ddatblygu sgiliau a fydd, gobeithio, o fudd iddynt.



# Pobl Ifanc:

Mae nifer o fudiadau yn nodi pa mor anodd yw hi i ddenu gwirfoddolwyr ifanc. Er mwyn bod yn apelgar at y grŵp yma ystyriwch estyn allan at eu rhwydweithiau Cymraeg a bod yn glir beth yw'r cyfleoedd rydych yn eu cynnig a sut gall y pobl ifanc wybod mwy amdanoch (yn yr un modd felly a gyda unrhyw wirfoddolwr).

Cysylltwch gyda sefydliadau a mudiadau sy'n gweithio gyda pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg; megis mudiadau y Ffermwyr Ifanc a'r Urdd, ysgolion uwchradd Cymraeg, colegau addysg bellach a'r Undebau Myfyrwyr Cymraeg o fewn y prifysgolion.

Cofiwch ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, mae fideos yn gweithio'n dda, dangoswch i'r pobl ifanc be sy'n bosib mewn ffyrdd hwyliog ac apelgar.



# TYSTYSGRIF HER SGILIAU BAGLORIAETH CYMRU UWCH

Fel rhan o Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Uwch mae pobl ifanc sy'n dilyn y cymhwyster yn cwblhau pedair cydran, un o'r rhain yw Her y Gymuned. Diben Her y Gymuned yw meithrin sgiliau'r dysgwyr, tra'n annog y dysgwyr i nodi, datblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd a fydd o fudd i gymuned.

Nid yw Her y Gymuned yr un fath a chael person yn gwirfoddoli'n uniongyrchol i gyfle mae eich mudiad wedi ei hysbysebu. Mae disgwyl i'r bobl ifanc i ymchwilio ac adnabod anghenion yn y gymuned; cynllunio gweithgareddau eu hunain (dan oruchwyliaeth mudiad / sefydliad) a chyfranogi i weithgareddau cymunedol am o leiaf 30 awr dros gyfnod o leiaf 4 wythnos.

Mae'n bosibl i fudiadau nodi eu bod yn agored i roi'r cyfle i bobl ifanc gefnogi amcanion y mudiad ar wefan CAVAC , gweler Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Uwch (cbac.co.uk) am enghreifftiau gan amryw o fudiadau, a gallwch gysylltu gyda Llinos Griffihs am fwy o wybodaeth – llinos.griffiths@wjec.co.uk



# 3 Hyfforddi

Mae cynnig hyfforddiant sy'n ystyried y Gymraeg yn ffordd arall o ddenu gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg. Mae'n dangos yn glir eich bod wedi ystyried eu hanghenion ieithyddol ac yn rhoi gwerth ar eu sgiliau ieithyddol o'r cychwyn. Mae'n dangos bod eich mudiad yn lle croesawgar a diogel i siaradwyr Cymraeg gan fodelu yr union fath o wasanaeth yr ydych yn dymuno ei gynnig.

Yn ychwanegol at hyn, mae'n bosib y bydd cynnig hyfforddiant Cymraeg neu ddwyieithog yn ffordd o ddenu siaradwyr nad ydynt mor brofiadol neu hyderus yn gweithredu drwy'r Gymraeg, i wneud hynny.

Mewn ambell sefyllfa mae darparu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn hollol angenrheidiol er mwyn rhoi'r sgiliau priodol i'r gwirfoddolwyr ddarparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn benodol mewn mudiadau lle mae iaith arbenigol iawn neu lle mae'r defnydd o iaith yn dylanwadu yn uniongyrchol ar y gwasanaeth.



## Arfer da – Samariaid Cymru (Cangen Bangor)

Mae wedi dod yn anoddach recriwtio gwirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith a hynny o fewn proses gyffredinol y Samariaid. Sefydlodd y Gangen felly drefn benodol ar gyfer recriwtio siaradwyr Cymraeg - gwybodaeth recriwtio, sesiwn wybodaeth a chyfweliadau yn Gymraeg a chynnig y cwrs hyfforddi cychwynnol hefyd drwy'r Gymraeg - cwrs a addaswyd/cyfieithwyd i'r Gymraeg gan y Gangen ei hun. Mae codi ymwybyddiaeth a hysbysebu'r cwrs yma'n bendant wedi sicrhau nifer o wirfoddolwyr na fyddent fel arall wedi ymuno a ni. Mae'r Gangen hefyd wedi datblygu Cynllun Iaith uchelgeisiol o ystyried y sefyllfa sydd ohoni o fewn y Samariaid er mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu trin yn gyfartal o fewn gweithgareddau dydd i ddydd y Gangen ar ol cael eu hyfforddi.



# 4 Cynnal a chefnogi

Y cam nesaf yw cadw eich gwirfoddolwyr.

> "Gwirfoddolwyr yw enaid sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru. Maen nhw'n dod â chymaint o fuddion – ond mae recriwtio a chadw gwirfoddolwyr yn golygu creu amgylchedd cadarnhaol a chefnogol."
> CGGC

Mae sicrhau eu bod yn mwynhau gwirfoddoli i chi ac yn teimlo eu bod wedi eu cefnogi yn y rôl yn hanfodol. Mae hyn yn cynnwys creu amgylchedd sy'n gynhwysol a chroesawgar. Mae yna ffyrdd amrywiol o wneud hyn:

- Aelod o staff sy'n gyfrifol amdanynt ac yn gweithredu fel mentor - mae hyn yn cynnwys pwynt cyswllt clir yn eich mudiad ac yn fan i'r gwirfoddolwr fynd am gefnogaeth neu i rannu pryderon. Os oes gennych aelod o staff sy'n siarad Cymraeg neu yn dysgu Cymraeg rhowch gyfle iddynt ddefnyddio eu sgiliau drwy gefnogi'r gwirfoddolwr.

- Adnoddau pwrpasol i'w cefnogi – fe ddylai adnoddau yr ydych yn eu rhannu gyda gwirfoddolwyr fod yn apelgar ac yn hygyrch, i rai mae hynny yn golygu bod adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gael. Lle bo hynny'n bosib, fe ddylech ddatblygu adnoddau dwyieithog.

- Rhannwch straeon am eich gwirfoddolwyr yn y wasg Gymraeg. Bydd hyn yn rhoi gwerth ar eu gwasanaeth ac yn hysbyseb i'ch mudiad a'ch cyfleoedd gwirfoddoli.

## Arfer da – Canolfan Gartholwg

> Rydym yn cynnig i ddysgwyr ddod i helpu gyda digwyddiadau ac yn rhoi'r cyfle iddynt ymarfer siarad yr iaith mewn amgylchedd anffurfiol. Rydym hefyd yn denu disgyblion 6ed dosbarth sy'n astudio Cymraeg ail iaith yn yr ysgolion uwchradd cyfagos. Maen nhw yn aml yn dweud ei bod hi'n anodd dod o hyd o gyfleoedd/llefydd 'diogel' i ymarfer siarad yr iaith.



# 5 Gwobrwyo

Mae gwirfoddolwyr (nid siaradwyr Cymraeg yn unig!) yn hoffi cael eu gwobrwyo am eu gwaith. Ond gall hyn amrywio yn sylweddol iawn. Enghreifftiau o wobrwyo:

- Hyfforddiant sy'n cynnig cymhwyster
- Tystysgrif
- Tocynnau gwirfoddoli (talebau/profiadau/oriau i'w gwobrwyo)
- Tocynnau bwyd
- Tocyn i ddigwyddiad lleol
- Mynediad am ddim i ddigwyddiad
- Disgownt ar wasanaeth/cynnyrch
- Cydnabyddiaeth yn y papur/ cyfryngau cymdeithasol

Cyn penderfynu ar ddull gwobrwyo – ystyriwch eich gwirfoddolwyr, eu diddordebau a'u cefndir a gwnewch benderfyniad yn seiliedig ar hynny. Byddai ymgynghori gyda nhw yn ffordd o sicrhau apêl y wobr ac yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn ganolog i'ch mudiad.





# Rhwydwaith cefnogi

Mae cael rhwydwaith o fudiadau sy'n medru eich helpu yn gam pwysig tuag at recriwtio gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg.

Mae angen taflu'r rhwyd yn eang er mwyn canfod y bobl a'r sgiliau yr ydych yn chwilio amdanynt. Mae defnyddio sefydliadau y mae unigolion yn gyfarwydd â nhw yn ffordd o gynyddu eich apêl a'ch tywys yn nes at gymunedau ac at wirfoddolwyr posib!

Gall hyn newid y ffordd y mae unigolion yn gweld eich sefydliad. Mae hyn yn arbennig o berthnasol os ydych yn un o'r canlynol:

- mudiad mawr sy'n cael ei weld fel lle swyddogol neu ffurfiol
- mudiad sydd â'i wreiddiau y tu hwnt i Gymru neu yn gweithio yn rhyngwladol
- mudiad sydd yn dod at y Gymraeg am y tro cyntaf ac nad oedd gennych staff nac adnoddau Cymraeg ar hyn o bryd
- mudiad sy'n gweithio mewn maes penodol sy'n cael ei weld fel rhywbeth Seisnig neu Brydeinig e.e. iechyd neu dechnoleg.

Mae yna nifer o sefydliadau Cymraeg a all eich cefnogi yn eich ymgyrch i recriwtio siaradwyr Cymraeg. Mae ganddynt fynediad at siaradwyr Cymraeg ac maent yn sefydliadau sy'n gyfarwydd ac yn adnabyddus i'r gwirfoddolwyr yr ydych yn chwilio amdanynt.



## Mentrau Iaith Cymru    Cefnogaeth bosib

MENTRAU IAITH

Mudiad cenedlaethol yw Mentrau Iaith Cymru (MIC) sy'n cefnogi rhwydwaith o 22 Menter Iaith ledled Cymru.

[Mentrau Iaith Cymru | Y Mentrau Iaith](#)

Mae MIC yn cefnogi'r rhwydwaith o Mentrau Iaith trwy amryw o weithgareddau a meysydd, fel marchnata a chyfathrebu, hyfforddiant a dylanwadu er budd y Gymraeg. Mae rhannu gwybodaeth, profiadau, syniadau ac adnoddau rhwng y Mentrau Iaith a phartneriaid eraill ar draws Cymru yn ein helpu i gyd hyrwyddo'r Gymraeg a chefnogi ein cymunedau.

Ewch draw i wefan MIC i ddysgu mwy am y Fenter sy'n weithredol yn eich ardal chi ac i weld sut y gallant eich cefnogi i ddod o hyd i wirfoddolwyr. Mae'n debygol eu bod yn defnyddio gwirfoddolwyr yn eu gweithgareddau eu hunain. Codwch y ffôn a gofynnwch am gyngor.



Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Cefnogaeth posib

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n gyfrifol am bob agwedd ar y sector Dysgu Cymraeg – o'r cwricwlwm ac adnoddau ar gyfer tiwtoriaid i ymchwil, marchnata, cyfathrebu ac e-ddysgu.

Croeso | Dysgu Cymraeg

Mae ganddynt filoedd o ddysgwyr Cymraeg yn eu rhwydwaith – beth am gynnig cyfle i ddysgwyr wirfoddoli yn eich mudiad? Gofynnwch i'r Ganolfan am gefnogaeth drwy rannu eich cyfle neu drwy gysylltu drwy'r gwefannau cymdeithasol.



| Papurau Bro | Cefnogaeth posib |
|---|---|




[Beth yw Papur Bro? | Papurau Bro Cymru](#)

Mae gan bron bob ardal yng Nghymru ei Phapur Bro ei hun sy'n rhannu hanesion a straeon eu hardaloedd lleol yn Gymraeg. Maent yn cynnwys newyddion pentrefi a threfi, erthyglau rhyngwladol a chenedlaethol, posau, cyfweliadau, hysbysebion, hanes lleol a llawer iawn mwy.

**Mae'n fan gwych i hysbysebu cyfleoedd gwirfoddoli gan gyrraedd calon cymunedau Cymraeg eu hiaith.**



## Urdd Gobaith Cymru Cefnogaeth posib

www.urdd.cymru

Mae Urdd Gobaith Cymru yn Gorff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol gyda dros 55,000 o aelodau rhwng 8 a 25 mlwydd oed. Maent yn darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc fwynhau profiadau trwy gyfrwng y Gymraeg a fydd yn eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol yn eu cymunedau.

Mae yna gangen a swyddogion ym mhob rhanbarth ac maent yn arbenigo mewn llwyth o weithgareddau gwahanol megis y celfyddydau, chwaraeon a phrofiadau dyngarol. Cysylltwch i rannu gwybodaeth neu i apelio am wirfoddolwyr ifanc.



Yn ogystal â'ch cefnogi i recriwtio, mae yna gefnogaeth ymarferol i ddefnyddio'r Gymraeg ar gael hefyd. Dyma rai enghreifftiau:

| Canolfan Bedwyr | Cefnogaeth posib |
| --- | --- |
| CANOLFAN BEDWYR | Adnoddau Defnyddiol (bangor.ac.uk) |

Mae Canolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Bangor wedi darparu llu o adnoddau sydd ar gael i fudiadau yng Nghymru i gefnogi eu defnydd o'r Gymraeg. Mae'r adnoddau yn cynnwys:

- Meddalwedd i gefnogi Cymraeg ysgrienedig (Cysgliad)
- ApGeiriaduron
- Geiriaduron a Thermiadur
- Tiwtorialau Cymraeg ysgrienedig
- Canllawiau Cymraeg Clir



Comisiynydd y Gymraeg Cefnogaeth posib

[Comisiynydd y Gymraeg](#)

Gall tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg eich cefnogi drwy:

- gyfarfodydd un i un
- seminarau
- hyfforddiant

Gall y tîm gefnogi elusennau i gynllunio eu gwasanaethau Cymraeg a pharatoi Cynllun Datblygu'r Gymraeg wedi ei gymeradwyo gan y Comisiynydd

Mae ganddynt hefyd ganllawiau ac ymchwil sy'n:

- rhannu arfer gorau
- edrych ar agweddau cwsmeriaid a'r sawl sy'n rhoi i elusennau at y Gymraeg

**Mae'r tîm Hybu hefyd yn darparu gwasanaeth prawf ddarllen hyd at 1000 o eiriau am ddim.**

| Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | Cefnogaeth posib |
| --- | --- |
| dysgucymraeg.cymru learnwelsh.cymru | [Gwasanaethau Cymraeg Gwaith \| Dysgu Cymraeg](#) |

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn rhedeg rhaglen Cymraeg Gwaith. Nod Cymraeg Gwaith yw cryfhau sgiliau Cymraeg yn y gweithle.

Mae Cymraeg Gwaith yn cynnig hyfforddiant amrywiol, hyblyg, sydd wedi ei ariannu'n llwyr i gyflogwyr.

| Helo Blod | Cefnogaeth posib |
| --- | --- |
| HELO BLOD | [Croeso i Helo Blod \| Helo Blod (gov.wales)](#) |

Mae Helo Blod yn wasanaeth cyfieithu a chynghori Cymraeg cyflym a chyfeillgar i'ch helpu i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eich busnes neu elusen. Mae ar gael am ddim.

# Mae llawer o gefnogaeth ar gael i'ch helpu i ddenu gwirfoddolwyr:

Cyngor Gweithredu Gwirfoddoli Cymru (CGGC) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru, a'i bwrpas yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd. Tudalen Gwirfododli y CGGC: Gwirfoddoli - CGGC (wcva.cymru)

Cefnogi Trydydd Sector Cymru - Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru. Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). Gallwch gael hyd i fanylion eich Cyngor Gwirfoddol lleol yma: Cysylltwch â ni - Cefnogi Trydydd Sector Cymru (thirdsectorsupport.wales)

Gwirfoddoli Cymru: yw'r lle i hysbysebu eich cyfleoedd Gwirfoddoli: (volunteering-wales.net) a bellach mae tudalen arbennig am wirfoddoli yn defnyddio'r Gymraeg: https://gwirfoddolicymru.net/cymraeg

## Dymuna MIC a IAITH ddiolch i'r cyrff canlynol a gyfrannodd at lunio'r fframwaith hwn drwy gyfrwng cyfweliadau a grwpiau ffocws:

PAVS
Interlink RCT
CVSC
Ataxia and Me
VC Gallery
Paul Sartori Foundation
PACTO
Neyland's Men Shed
Sandy Bear Children's Bereavement Charity
Scout Cymru
Ambiwlans Awyr Cymru
Age Cymru
Pembrokeshire People First
Parc Arfordir Sir Benfro
Versus Athritis
Home Start Cymru
Menter Iaith Sir Benfro
Urdd
Mudiad Meithrin
Menter Iaith Conwy
CAB
Samariaid Cymru
Cares Wales
Victim Support
FLVC
NSPCC
Canolfan Gartholwg
Menter Iaith RCT
Mudiad Meithrin
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
Urdd Gobaith Cymru
Eisteddfod Genedlaethol
Rhwydwaith papurau Bro Cymru